

Myfyrdodau Mis Awst 2013

Myfyrdod 1: Salm 10

“Pam, Arglwydd, y sefi draw, ac ymguddio yn amser cyfyngder?” (Salm 10:1)

Daw Job i feddwl wrth ystyried y Salm hon. Mynnodd Job atebion gan Dduw, mynnodd esboniad am ei ddolur a chyfiawnhad dros ei ddioddefaint: “... *nid ataliaf fy ngeiriau; llefaraf yng nghyfyngder fy ysbryd, cwynaf yn chwerwder fy enaid.*” (Job 7: 11) ... “*Gad lonydd imi, ...*” (Job 7: 16), meddai wrth Dduw.

Oni chawsom ein dysgu ar yr aelwyd, yn yr Ysgol Sul a’r capel i siarad yn barchus â, ac am Dduw? Anodd, felly, gennym glywed y Salmydd yn siarad fel hyn â Duw oherwydd onid “*manners maketh Christian*”? Rhaid wrth ostyngeddwrwydd a phob dyledus barch wrth siarad â Duw. Dylem gofio, wrth gwrs, bod Job mewn cwmni da wrth siarad fel hyn â Duw. Ceir sawl enghraifft - gormod o lawer i’w hanwybyddu - o sgysiau digon hallt rhwng pobl a’i Duw.

Gwyddom am Job, ac fe gofiwch efallai am Abraham yn erfyn dros Sodom: “... “*A wyt yn wir am ddifa’r cyfiawn gyda’r drygionus? Os ceir hanner cant o rai cyfiawn yn y ddinas, a wyt yn wir am ei dinistrio a pheidio ag arbed y lle er mwyn yr hanner cant cyfiawn sydd yno?*” Sylwch: “*Na foed iti wneud y fath beth, a lladd y cyfiawn gyda’r drygionus, nes bod y cyfiawn yr un fath a’r drygionus. Na ato Duw! Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn?*” (Genesis 18: 23-26) Mae Moses ar ôl rhialtwch y Llo Aur yn ymbil ar Dduw: “*O Arglwydd, pam y mae dy lid yn ennyn yn erbyn dy bobl a ddygaist allan o wlad yr Aifft â nerth mawr ac â llaw gadarn? Pam y caiff yr Eifftiaid ddweud, ‘Â malais yr aeth â hwy allan, er mwyn eu lladd yn y mynyddoedd a’u difa oddi ar wyneb y ddaear’? Tro oddi wrth dy lid angerddol, a bydd edifar am iti fwriadu drwg i’th bobl.*” (Exodus 32: 11-12) Dyma Jeremeia wedyn: “... *gosodaf fy achos o’th flaen: Pam y llwydda ffordd y drygionus, ac y ffynna pob twyllwr*” (Jeremeia 12: 1) a beth am Dafydd yn Salm 22? Cofiwch hefyd pwy fenthycodd y geiriau yng nghanol ei boen yntau: “*Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael, ac yn cadw draw rhag fy ngwaredu ac oddi wrth eiriau fy ngriddfan? O fy Nuw, gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid wyt yn ateb, a’r nos, ond ni chaf lonyddwch.*” (Salm 22: 1-2)

Mae’r Salmydd yn Salm 10 yn ymuno gyda Job, Abraham, Moses, Jeremeia a Dafydd – pobl nad oeddent yn sensora eu hiaith nac yn sterileiddio eu hemosiynau wrth siarad â Duw. Gan ddilyn eu hesiampl, mae’r Salmydd yn mynnu cael mynegi ei deimladau, un ac oll. Anghofiodd ei ‘*fanners*’ wrth siarad â Duw, taflodd ei flinder a’i ofid yn dalpau at Dduw: “*Cyfod Arglwydd; O Dduw, cod dy law; nac anghofia’r anghenus. Pam y mae’r drygionus yn dy ddirmygu, O Dduw, yn tybio ynddo’i hun nad wyt yn galw i gyfrif?*” (Salm 10: 12-13)

Fel Job, Abraham a Moses; Jeremeia a Dafydd, mae’r Salmydd hwn yn mynnu cofio’r addewid i Moses: “... *Duw trugarog a graslon, araf i ddigio, llawn cariad a ffyddlondeb, yn dangos cariad ... yn maddau drygioni a gwrthryfel a phechod, ond heb adael yr euog yn ddi-gosb ...*” (Exodus 34: 6-7). Pan mae Duw yn methu fel Duw, maent yn mynnu gadael Iddo wybod!

Weithiau, mae hawl gennym godi llais ar ein Duw. Weithiau mae bywyd yn galed a chreulon, a'r caledi hwnnw'n ddisynnwyr, y creulondeb yn ddiennaid. Mae gennym hawl i fynegi ein dolur i gyd, ein siom, ein rhwystredigaeth, ein hofn a hyd yn oed ein diffyg ffydd. Peidiwn felly ag atal ein cwyn.

Myfyrdod 2: Salm 42 a Salm 43

Un salm tri phennill yw Salmau 42 a 43; yn Salm 42 cawn y ddau bennill cyntaf a Salm 43 yw'r pennill olaf. Ceir pedair adnod i bob pennill, a phob pennill yn gorffen gydag adnod y gytgan: "*Mor ddarostyngedig wyt, fy enaid, ac mor gythryblus o'm mewn! Disgwyliaf wrth Dduw; oherwydd eto moliannaf Ef, fy Ngwaredydd a'm Duw*" (Salmau 42: 5 a11; Salmau 43: 5).

Syched yw hanfod y pennill gyntaf. Mae'r Salmydd ymhell o Jerwsalem, ac mae dirmyg, gwawd a gwatwar diddiwedd ei elynion yn gwasgu'n drwm arno. Mae'r Salmydd yn dyheu am bresenoldeb Duw ac addoliad y Deml. Mae'r atgofion o'r gwyliau crefyddol, y canu gorfoleddus a'r gorymdeithio llawen yn llethu ei galon. Mae ei enaid yn hesb. Mae blas y syched ar y gytgan gyntaf, does fawr o argyhoeddiad ynddi rywsut. Mae'r Salmydd yn ddigalon, a'i ffydd yn wan ...

Tywyllwch y dyfnder yw hanfod yr ail bennill. Cofia'r Salmydd eto am y trugaredd a'r gofal a fu, ond clyw o hyd gwawd a gwatwar ei elynion. Gofyn a wna'r Salmydd pam y cafodd ei anghofio gan Dduw? Grymus iawn yw'r disgrifiad o'i gyflwr meddwl: sŵn y dyfnder, sŵn rhaedrau a thonnau'r môr. Syrthiodd i ddyfnder o ofid, mae ton ar ôl ton o hiraeth yn taro'n ddirugaredd yn erbyn sylfaen ei fywyd; "*Pam y rhodiaf mewn galar, wedi fy ngorthrymu gan y gelyn?*" (Salmau 42: 9b) Gyda'r ail gytgan, mae'r alltud fel petai yn troi arno'i hun, gan geryddu'r digalondid sydd yn ei lethu. Mae'n mynnu cael codi ei ben uwchlaw'r tonnau gan gymryd llond ysgyfaint o wynt. Dim ond dal gafael mae'r truan hwn ...

Dryswch yw hanfod y pennill olaf. Fe wŷr y Salmydd mae Duw yw ei amddiffyn. Dyma sail ei weddi, ond metha'n lan a deall pam fod Duw ei nerth wedi cefnu arno. Er hynny, nid yw'r weddi yn cael ei thagu: "*Anfon dy oleuni a'th wirionedd, bydded iddynt fy arwain, bydded iddynt fy nwyn i'th fynydd sanctaidd ac i'th drigfan*" (Salmau 43: 3). Daw nodyn cryfach o obaith i ffydd y Salmydd ar ddiwedd Salm 43. Gwêl y Deml yn fwy clir, gwêl ei Dduw yn fwy clir. Sylwch: "*... dof at allor Duw, at Dduw fy llawenydd; llawenychaf a'th foliannu â'r delyn O Dduw, fy Nuw*" (Salm 43: 4). Mae'n nos arno, mae'n stormus ac mae'r dyfnder du yn gwasgu arno o bob tu, ond mae'r Salmydd yn gwybod nawr fod y wawr ar dorri. Edrych yn ôl oedd hwn ar ddechrau Salm 42, i hen ganu; edrych ymlaen a wna yn Salm 43 i ganu newydd. Grym y gytgan olaf yw glynu di-ollwng y Salmydd wrth Dduw er Ei fod ymhell.

Myfyrdod 3: Salm 51

*“O’th flaen, O! Dduw, ‘r wy’n dyfod gan sefyll o hir bell;
pechadur yw fy enw, ni feddaf enw gwell;
trugaredd ‘rwy’n ei cheisio, a’i ceisio eto wnafl;
trugaredd imi dyro, ‘rwy’n marw onis caf.”*

(Thomas William Bethesda'r Fro, 1761 – 1844; C.Ff. 175)

Salm edifeirwch yw hon. Dyma un o glasuron llenyddiaeth grefyddol y byd. Mae'r Salmydd yn gwneud mwy na gweld ei bechod; gweithred fwriadol gan y Salmydd yw'r Salm hon i gydnabod y pechodau sydd yn andwyo'i fywyd, ac yn lladd ei berthynas â Duw. Dim ond trwy'r cydnabod a'r addunedu hyn y gwêl y Salmydd obaith am galon lân (Salm 51: 10).

Gellid dadlau fod pedwar cam i edifeirwch. Cydnabod y drwg yn erbyn Duw; cydnabod yr angen am faddeuant gan Dduw; addunedu i droi oddi wrth y drwg ac ymroi i fyw bywyd gwell; a'r cam terfynol: derbyn maddeuant. Mae'r camau hyn yn amlwg y Salm hon.

Cydnabod y drwg: "*Oherwydd gwn am fy meiau ...*" (Salm 51: 3) "*Yn dy erbyn di, ti yn unig, y pechais a gwneud yr hyn a ystyri'n ddrwg*" (Salm 51: 4) "*Wele, mewn drygioni y'm ganwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam*" (Salm 51: 5).

Cydnabod yr angen am faddeuant gan Dduw: "*Bydd drugarog wrthyf ...*" (Salm 51: 1) "*... golch fi'n lân o'm heuogrwydd, a glanha fi o'm pechod*" (Salm 51: 2) "*Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau, a dilea fy holl feiau*" (Salm 51: 9).

Addunedu i droi oddi wrth y drwg ac ymroi i fyw bywyd gwell: "*Crea galon lan ynof, O Dduw, rho ysbryd newydd cadarn ynof*" (Salm 51: 10) "*... a chynysgaedda fi ag ysbryd ufudd*" (Salm 51: 12)

Derbyn maddeuant: "*... calon ddrylliedig ac edifeiriol ni ddirmygi, O Dduw*" (Salm 51: 17) "*Dyro i mi eto orfoledd dy iachawdwriaeth*" (Salm 51: 12) "*... fe gân fy nhafod am dy gyfiawnder*" (Salm 51: 14) "*... bydd fy ngenau yn mynegi dy foliant*" (Salm 51: 15)

Mae cydnabod y drwg a'r angen am faddeuant, ac addunedu i droi oddi wrth y drwg yn ein cymhwyso i dderbyn maddeuant Duw. Nid bod y tri cham cyntaf yn amod maddeuant, ond maddeuant yw gwobr y camau hyn.

Myfyrdod 4: Salm 145

Rysâit dedwyddwch yw'r Salm hon. Prif gynhwysyn y rysâit yw dysgu bendithio Duw, sut bynnag mae arnom, bob dydd (Salm 145: 2a).

Mae'r Salm yn dechrau'n hyderus: "*bendithiaf dy enw ... Bob dydd bendithiaf di, a moliannu dy enw byth bythoedd*" (Salm 145: 1-2). Mae'r awdur yn mynnu, beth bynnag ddaw, mai "*Graslon a thrugarog yw'r Arglwydd, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb ... Gofala'r Arglwydd am bawb sy'n ei garu ...*" (Salm 145: 8 a 20a).

Mae Salm 145 yn unigryw gan fod yr awdur yn canu clod i Dduw am bethau da a drwg. Mae'r adnodau yn yr Hebraeg gwreiddiol yn dilyn trefn y wyddor Hebraeg. Salm Acrostig ydyw. Penllanw'r dilyniant yw'r datganiad hyderus, grymus derfynol: "*Llefara fy ngenau foliant yr Arglwydd, a bydd pob creadur yn bendithio'i enw byth bythoedd*" (Salm 145: 21).

Mae'r adnodau agoriadol yn gosod cywair y salm: "*Dyrchafaf di, fy Nuw, O Frenin, a bendithiaf dy enw byth bythoedd. Bob dydd bendithiaf di, a moliannu dy enw byth bythoedd.*" (Salm 145: 1-2,

ychwanegwyd y pwyslais). Mae'r geiriau hyn yn gadarn, sicr; dyma fynegiant hyderus, cryf o ffydd yn, a chariad tuag at, Dduw. Mynegir hyn, gan gydnabod llawenydd a thristwch bywyd, iechyd ac afiechyd, llwyddiant a methiant. Yn Adnodau 6 a 7, mae 'nhw' yn cyhoeddi grym gweithredoedd Duw, ac yn diolch am ei ddaioni helaeth ond nid oes sôn am boen a dolur bywyd. I'r gwrthwyneb, mae'r awdur yn mynnu cyhoeddi awdurdod Duw ym mhob peth, mae cariad Duw ar waith ym mhob peth a thrwy bob peth: "*Fe gynnal yr Arglwydd bawb sy'n syrthio. Ac uniona'r holl rai gwargam*" (Salm 145: 14).

Nid yw awdur y Salm yn honni deall ffyrdd Duw, ond gŵyr yn iawn, ym mer ei esgyrn mai da yw Duw - Duw cariad yw - Duw ydyw sydd yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd, ac yn ffyddlon yn ei holl weithredoedd (Salm 145: 13 a 17). Cred yr awdur mai Duw yw creawdwr, cynhaliwr a brenin y bydysawd. Nid oes dim yn bodoli ar wahân i Dduw. Er iddo fethu deall sut, fe ŵyr fod gan Dduw y gallu i blethu pob dioddefaint a drygioni i mewn i batrwm ei fwriad cariadlawn ar gyfer ei bobl. Mynna'r Salmydd ganu clod i'r Duw sydd iddo yntau'n Dduw mawr, "*a theilwng iawn o fawl*", gan gydnabod bod "*ei fawredd yn anchwiliadwy*" (Salm 145: 3).